CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

NORTH WALES SOCIAL CARE AND WELL-BEING
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

Cyfrifiad 2021: canlyniadau cyntaf

Awst 2022

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

GIG CYMRU NHS WALES
Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

CONWY CYNGOR BWRDEISTREF SIROL COUNTY BOROUGH COUNCIL

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL

wrexham COUNTY BOROUGH COUNCIL CYNGOR BWRDEISTREF SIROL wrecsam

Cysylltwch â ni

Hwb Cydlynu Arloesi Rhanbarthol Gogledd Cymru

Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, LL15 1YN

Ebost: hcargc@sirddinbych.gov.uk

Ffôn: 01824 712432

Gwefan: www.cydweithredfagogleddcymru.cymru

Cynnwys

Cyflwyniad 4

Y canlyniadau allweddol i Ogledd Cymru 5

Cymhariaeth gyda sylfeini poblogaeth eraill 6

Pam fod yna wahaniaeth? 7

Goblygiadau posibl – ffigurau'r boblogaeth 9

Goblygiadau posibl – ffigurau aelwydydd 10

Amserlen rhyddhau data 11

Ynglŷn â'r Cyfrifiad 12

Y canlyniadau allweddol i Ynys Môn 14

Y canlyniadau allweddol i Wynedd 16

Y canlyniadau allweddol i Fwrdeistref Sirol Conwy 18

Y canlyniadau allweddol i Sir Ddinbych 20

Y canlyniadau allweddol i Sir y Fflint 22

Y canlyniadau allweddol i Wrecsam 24

Cyflwyniad

Mae’r bwletin hwn yn edrych ar ganlyniadau cyntaf Cyfrifiad 2021 ar gyfer Cymru a Lloegr, a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol 28 Mehefin 2022. Mae’r canlyniadau cyntaf hyn yn cynnwys amcangyfrifon poblogaeth ac aelwydydd ar lefel Cymru ac awdurdod lleol. Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu, ac mae'r boblogaeth yn ôl oedran ar gael mewn grwpiau oedran pum mlynedd yn unig, felly gall cyfansymiau, cyfrannau a chymarebau newid pan fydd data manwl ar gael.

Bydd mwy o ddata yn cael ei ryddhau mewn camau dros y 18 mis nesaf, ac fe fydd yn cynnwys data manwl ar lefel ardal fach am bobl, aelwydydd a threfniadau byw, gwaith a thai/adnoddau.

Yn ogystal â darparu dadansoddiad o ddata’r Cyfrifiad, rhoddodd aelodau o dîm y Hwb Cydlynu Arloesi Rhanbarthol gymorth lleol i’r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) a gynhaliodd yr arolwg bob deng mlynedd. Mae ein Rheolwr Prosiect Rhanbarthol ar gyfer yr Asesiad o Anghenion Poblogaeth yn eistedd ar Grŵp Cynghori ar y Cyfrifiad Cymru, ac mae wedi gweithio ar gasglu, coladu, dadansoddi a lledaenu canlyniadau pob Cyfrifiad ers 1991.

Heb Gyfrifiad manwl, gallai Gogledd Cymru fod ar ei cholled, gan fod gwybodaeth o’r Cyfrifiad yn gallu ein helpu i:

- ddatblygu polisïau
- cynllunio a rhedeg busnes, megis ysgolion, gwasanaethau iechyd, ffyrdd a llyfrgelloedd
- penderfynu sut i ddyrannu cyllid i sicrhau bod arian y cyhoedd yn cyrraedd lle mae ei angen fwyaf.

Y canlyniadau allweddol i Ogledd Cymru

- Ar Ddiwrnod y Cyfrifiad, 21 Mawrth 2021, maint y boblogaeth breswyl arferol yn Gogledd Cymru oedd 687,000.
- Mae'r boblogaeth wedi gostwng o -950 (-0.1%) ers y cyfrifiad diwethaf yn 2011, pan oedd yn 687,950. Gwelodd Cymru gynnydd o 1.4%, a Chymru a Lloegr gynnydd o 6.3%.
- Roedd mwy o bobl nag erioed o'r blaen yn y grwpiau oedran hŷn; cyfran y boblogaeth a oedd yn 65 oed a throsodd oedd 23.5% (i fyny o 20.1% yn 2011), sef cyfanswm o 161,200 o bobl. Y boblogaeth 65+ oed yng Nghymru gyfan = 21.3%; yng Nghymru a Lloegr = 18.6% (i fyny o 18.4% a 16.4% yn y drefn honno).
- Roedd 20,600 o breswylwyr yng Ngogledd Cymru a oedd yn 85 oed a throsodd yn 2021, o gymharu â 18,350 yn 2011 a 15,600 yn 2001. Ar 3.0% o'r boblogaeth roedd hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru o 2.7% a chyfartaledd Cymru a Lloegr o 2.4%.
- Mae'r boblogaeth o oedran gweithio wedi gostwng yn y deng mlynedd diwethaf – roedd 378,100 o bobl 20-64 oed yn 2021 sef 55.0% o'r holl breswylwyr arferol. Mae hyn yn cymharu â 392,150 neu 57.0% yn 2011. Y boblogaeth o oedran 20-64 yng Nghymru gyfan yn 2021 = 56.5%; yng Nghymru a Lloegr = 58.4%.
- Mae'r gymhareb dibyniaeth henaint (nifer y bobl yn y boblogaeth sydd 65+ oed ar gyfer bob 100 o bobl o oedran 20-64) wedi cynyddu'n sylweddol ac mae bellach yn 42.6:100 o gymharu â 35.3:100 yn 2011. Cymhareb Cymru gyfan ar gyfer 2021 yw 37.7:100 ac ar gyfer Cymru a Lloegr mae'n 31.8:100. Gall cymhareb ddibyniaeth uchel roi straen ar yr economi leol ac ar yr adnoddau sydd eu hangen i ddarparu gofal cymdeithasol.
- Roedd nifer y bobl dan 15 oed yn 111,100 neu 16.2% o gyfanswm y boblogaeth (i lawr o 115,100 neu 16.7% yn 2011). Y boblogaeth o dan 15 oed yng Nghymru gyfan = 16.5%; yng Nghymru a Lloegr = 17.4% (i lawr o 16.9% a 17.6% yn y drefn honno).
- Mae gan Bwrdeistref Sirol Conwy strwythur oedran hynaf o awdurdodau unedol Gogledd Cymru, a Wrecsam sydd â'r strwythur oedran ieuengaf.
- Roedd 301,3000 o aelwydydd ag o leiaf un preswylydd arferol yn Gogledd Cymru ar Ddiwrnod y Cyfrifiad; mae hyn yn gynnydd o 5,700 (1.9%) ers 2011, pan oedd 295,600 o aelwydydd. Gwelodd Cymru gynnydd o 3.4%, a Chymru a Lloegr gynnydd o 6.1%.

- Mae chwe awdurdod unedol Gogledd Cymru yn cyfrif am 22.108% o boblogaeth Cymru. Mae hyn ychydig yn is na'r gyfran o 22.173% a fydd wedi'i defnyddio yng nghyfrifiadau cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer awdurdodau lleol (ffigur ar gyfer 2021 o amcanestyniadau is-genedlaethol sail-2018 Llywodraeth Cymru).
- Roedd gan wyth awdurdod lleol boblogaethau is yn 2021 nag yn 2011(yn cynnwys Gwynedd, Ynys Môn a Bwrdeistref Sirol Conwy), a gwelodd pump arall dwf o lai na cyfartaledd Cymru, sef 1.4% (yn cynnwys Wrecsam). Roedd y cyfraddau mwyaf o leihad yn y boblogaeth ers 2011 yng Ngheredigion (5.8%), Blaenau Gwent (4.2%) a Gwynedd (3.7%).
- Roedd cyfradd twf y boblogaeth yng Nghymru yn sylweddol is nag yn Lloegr, lle cynyddodd y boblogaeth 6.6%. Roedd twf y boblogaeth hefyd yn is yng Nghymru nag yn holl ranbarthau Lloegr. Roedd y gyfradd twf yng Nghymru bron chwe gwaith yn is nag yn Nwyrain Lloegr, sef y rhanbarth yn Lloegr â'r newid canrannol mwyaf ym maint y boblogaeth (8.3%). Roedd hefyd yn is na'r rhanbarth yn Lloegr â'r twf lleiaf yn y boblogaeth, sef Gogledd-ddwyrain Lloegr (1.9%).

Roedd patrymau newid yn wahanol ar gyfer pob un o ardaloedd awdurdodau unedol Gogledd Cymru. Cyflwynir dadansoddiad ar wahân ar gyfer pob maes yn ddiweddarach yn y ddogfen hon.

Cymhariaeth gyda sylfeini poblogaeth eraill

Mae amcangyfrif y Cyfrifiad o'r poblogaeth yn dangos bod ffigur diweddaraf y boblogaeth a gynhyrchwyd yn swyddogol (amcangyfrifon canol-blwyddyn 2020 o'r boblogaeth, ONS) wedi amcangyfrif poblogaeth Gogledd Cymru a phob un o'i hardaloedd awdurdod lleol cyfansoddol yn llawer rhy isel. Mae sylfaen y boblogaeth a ddefnyddir yng nghyfrifiad 2021/22 y Grant Cynnal Refeniw (GCR) hefyd wedi amcangyfrif cyfanswm y boblogaeth yn rhy isel.

Nid yw'r gwahaniaeth hwn yn golygu bod Gogledd Cymru wedi colli 16,350 o bobl yn sydyn. Gellir disgrifio'r gwahaniaeth fel 'gwall cyfrif'. Ni fydd yn rhaid i'n gwasanaethau cyhoeddus addasu ei adnoddau i ddarparu ar gyfer y newid hwn gan nad yw'n golygu y bu newid yn nifer y bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau.

Er hynny, gallai ffigurau newydd y Cyfrifiad gael goblygiadau o ran adnoddau mewn perthynas â beth maent yn ei olygu i'n setliad GCR. (gweler yr adran 'Goblygiadau posibl – ffigurau'r boblogaeth' isod).

Tabl 1: cymharu sylfeini gwahanol y boblogaeth

	Cyfrifiad 2021	Cyfrifiad 2011	Amcan-gyfrif canol-blwydd. 2020	2021/22 setliad y GCR*	Cyfrifiad 2001
Cyfanswm poblogaeth	687,000	687,950	703,350	701,150	663,400
Fel % o gyfanswm Cymru	22.108%	22.456%	22.191%	22.173%	22.852%
Cyfanswm aelwydydd	301,300	295,600	308,300	307,800	279,300
Gwahaniaeth					
Cyfanswm poblogaeth		-950	-16,350	-14,150	23,600
Fel % o gyfanswm Cymru		-0.348%	-0.083%	-0.066%	-0.744%
Cyfanswm aelwydydd		5,700	-7,000	-6,500	22,000

Ffynonellau: Cyfrifiad poblogaeth 2021, 2011 a 2001, SYG; amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2020, SYG; amcangyfrifon aelwydydd canol blwyddyn 2020, LG; amcanestyniadau sail-2018, LG)

* Mae sylfeini'r boblogaeth a ddefnyddir yng nghyfrifiad y Grant Cynnal Refeniw (GCR) wedi'u cymryd o amcanestyniadau poblogaeth sail-2018 a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru, ac yn defnyddio amcanestyniadau ffigurau'r boblogaeth ar gyfer canol-2021.

Pam fod yna wahaniaeth?

Bydd nifer o resymau pam mae amcangyfrifon y cyfrifiad yn edrych yn wahanol. Un rheswm yw y gallai newid yn y boblogaeth adlewyrchu sut yr effeithiodd y pandemig ar ddewis pobl o breswylfa arferol ar Ddiwrnod y Cyfrifiad. Mae canlyniadau cyfrifiad ar gyfer Gwynedd yn arbennig yn debygol o fod wedi cael eu heffeithio gan ble y cyfrifwyd myfyrwyr. Gallai'r newidiadau hyn fod wedi bod yn rhai dros dro i rai ac yn fwy hirdymor i eraill. Nid yw'n glir chwaith sut mae gadael yr Undeb Ewropeaidd wedi effeithio ar newid yn y boblogaeth yng Nghymru a ledled y Deyrnas Unedig.

Mae amcangyfrifon y boblogaeth dros y cyfnod o 10 mlynedd ers Cyfrifiad 2011 wedi'u paratoi drwy ddechrau gydag amcangyfrifon y boblogaeth yn seiliedig ar

Gyfrifiad 2011, ac ychwanegu genedigaethau, tynnu marwolaethau, ac ychwanegu unrhyw fudiadau net bob blwyddyn ers 2011. Daw'r amcangyfrifon yn fwyfwy ansicr dros amser wrth i ni symud ymhellach i ffwrdd o linell sylfaen Cyfrifiad 2011. Felly, mae Cyfrifiad 2021 wedi rhoi cyfle i ni ddiweddaru ein dealltwriaeth o'r boblogaeth fel yr oedd ym mis Mawrth 2021.

Mae data genedigaethau a marwolaethau'n ddibynadwy iawn, gan eu bod wedi'u hategu gan systemau gofrestru gyflawn. Mae hyn yn golygu bod y gwahaniaeth rhwng yr amcangyfrifon poblogaeth treigledig ac amcangyfrifon Cyfrifiad 2021 yn fwyaf tebygol o ganlyniad i oramcangyfrif ymfudo net dros y cyfnod 10 mlynedd. (Roedd ffigurau mudo'n cynnwys mudo rhyngwladol a mudo o lefydd eraill yn y Deyrnas Unedig.)

Yn ogystal mae posibilrwydd bod Cyfrifiad 2011 wedi goramcangyfrif y sail boblogaeth. Ar gyfer 2011, roedd gwahaniaethau sylweddol yn yr amcangyfrifon poblogaeth ar gyfer holl ardaloedd awdurdodau unedol Gogledd Cymru o gymharu â ffigurau canol blwyddyn 2010. Ni chafodd y gwahaniaethau hyn eu hegluro'n llawn yn y dulliau ystadegol a ddefnyddiwyd gan Swyddfa Ystadegau Gwladol pan wnaethant ailsefydlu ffigurau amcangyfrifon 2002-2010 a chafodd yr elfen anesboniadwy honno ei hadnabod fel 'newid na ellir ei briodoli'. Efallai bod canlyniadau Cyfrifiad 2021 yn gynnwys cywiriad i hynny.

Mae amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn hefyd yn sail i'r amcanestyniadau poblogaeth seiliedig ar 2018 sy'n darparu'r data poblogaeth a ddefnyddiwyd yn y cyfrifiad RSG, felly bydd y goramcangyfrifon wedi effeithio arnynt hefyd.

Yn ddiweddarach eleni mae'r ONS yn bwriadu cyhoeddi mwy o ddadansoddiadau sy'n cymharu amcangyfrifon poblogaeth y Cyfrifiad â ffynonellau eraill o ddata poblogaeth. Bydd hyn yn cynnwys cymariaethau â'r amcangyfrifon canol blwyddyn diweddaraf o'r boblogaeth a'r amcangyfrifon poblogaeth yn seiliedig ar ddata gweinyddol mwy arbrofol. Bydd yr ONS hefyd yn cyhoeddi mwy o wybodaeth am yr hyn y mae canlyniadau'r Cyfrifiad yn ei olygu i ddiweddaru'r gyfres bresennol o ystadegau poblogaeth ac ymfudo.

Goblygiadau posibl – ffigurau'r boblogaeth

Nid yw'r gostyngiad yn yr amcangyfrif o'n poblogaeth ar ei ben ei hun, yn golygu o reidrwydd bod hyn yn effeithio ar y gwasanaethau a ddarperir gennym. Fel y nodir uchod, nid yw'r bobl hyn yn 'ar goll' i'r rhanbarth, ond yn hytrach maent wedi cael eu camgyfrif mewn amcangyfrifon blaenorol o'n poblogaeth. Nid yw diwygio cyfrifiad y boblogaeth ar wahân yn gwneud gwahaniaeth i'r ffordd y gweithredwn fel darparwyr gwasanaeth.

Er hynny, beth allai gael effaith posibl yw'r newid yn y gyfran o'r boblogaeth fel canran o gyfanswm Cymru. Mae hyn yn wir am y boblogaeth yn ei chyfanrwydd ac o fewn grwpiau oedran penodol. Mae hyn oherwydd bod cyfrifiad y Grant Cynnal Refeniw (GCR) a chyfrifiadau cyllid sector cyhoeddus eraill fel dyraniadau refeniw byrddau iechyd yn dibynnu'n fawr ar ddata poblogaeth. Mae'r GCR yn rhan o'r Setliad Cyllid Llywodraeth Leol sy'n pennu faint o'r cyllid a ddarperir ar gyfer Cymru a fydd y cael ei roi i bob awdurdod lleol.

Fel cyfran o gyfanswm Cymru, mae ffigur poblogaeth Gogledd Cymru yng Nghyfrifiad 2021 yn 0.066% yn is na setliad 2021/22 yr GCR (22.108% o gyfanswm Cymru, o'i gymharu â 22.173%). Er bod hyn yn edrych fel gwahaniaeth bach, fe allai gael effaith sylweddol ar incwm o'r setliad.

Nid yw'n hawdd asesu'r union effaith, gan fod cyfrifiadau ariannu yn eithriadol o gymhleth. Mae'r setliad ariannol llawn ar gyfer llywodraeth leol er enghraifft hefyd yn cynnwys ardrethi annomestig wedi'u hailddosbarthu, cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor a grantiau trosiannol. Bydd yr effaith yn wahanol ar gyfer pob awdurdodau lleol.

Mae'n bwysig cofio efallai bydd gyfran Gogledd Cymru o setliadau cyllid Llywodraeth Cymru yn cael ei heffeithio hefyd gan ostyngiad yn y cyfanswm cyllid, gan fod maint cyfanswm setliad ar gyfer Cymru gyfan yn y dyfodol yn debygol o fod yn llawer llai na 2022/23, gan fod y Cyfrifiad wedi amcangyfrif poblogaeth lai i gyfanswm y DU, nac oedd wedi'i awgrymu yn yr amcangyfrifon poblogaeth ganol blwyddyn flaenorol.

Yn ychwanegol, bydd defnyddio data'r Cyfrifiad i ddiwygio'r amcangyfrifon canol-blwyddyn yn cael effeithiau eang. Lle defnyddir cyfraddau neu ganrannau o'r boblogaeth i fesur angen cymharol neu effeithlonrwydd gwasanaeth, maent yn debygol o gael eu diwygio (er enghraifft – cyfran y boblogaeth 0-4 oed; cyfraddau

canser; cymhareb y dibynyddion i boblogaeth oedran gweithio).Bydd hyn yn newid rhai o'r dystiolaeth a ddefnyddiwn i fonitro ein gwasanaethau a'n cymuned ehangach. Yn benodol, bydd yr amcangyfrifon poblogaeth canol-blwyddyn newydd, y disgwylir eu cyhoeddi yn Hydref/Tachwedd 2022, yn cael eu defnyddio i gyfrifo rhai dangosyddion perfformiad. Yn dibynnu ar sut y mae pob dangosyddion perfformiad yn defnyddio data'r boblogaeth, fe all newid fesul cam ddigwydd yn y canlyniadau perfformio ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Bydd data poblogaeth hefyd yn cael ei adolygu ar gyfer 2012-2020 er mwyn sicrhau parhad â Chyfrifiad 2011. Bydd hyn yn effeithio ar sut rydym yn deall ac yn dehongli tueddiadau'r gorffennol, a sut y defnyddir y tueddiadau hyn i gynllunio'r dyfodol.

Goblygiadau posibl – ffigurau aelwydydd

Er y gostyngiad yng nghyfanswm poblogaeth amcangyfrifedig, mae niferoedd o aelwydydd wedi cynyddu yn y degawd diwethaf. Y rheswm am hyn yw bod maint cyfartaledd aelwyd wedi parhau i leihau, fel sydd wedi bod yn digwydd yn y degawdau diwethaf. Fodd bynnag, mae graddfa'r twf yn niferoedd aelwydydd wedi ei ragweld yn llai nag amcangyfrifon swyddogol Llywodraeth Cymru a'r rhagolygon aelwydydd is-genedlaethol yn 2018.

Fel gyda phob ffigur poblogaeth, mae unrhyw gyfradd, canran neu gymarebau sy'n ymwneud â niferoedd aelwydydd, ac sy'n cael eu defnyddio i fesur angen neu i fonitro darpariaeth gwasanaeth, yn debygol o gael eu diwygio (er enghraifft – cymhareb aelwydydd a dderbynnir yn ddigartref fesul 10,000 o aelwydydd).

Mae'r newid yn niferoedd y boblogaeth a maint yr aelwydydd yn mynd i gael effaith yn y pen draw ar ofynion anheddau'r dyfodol, sy'n cael eu darparu gan awdurdodau cynllunio lleol yn eu Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLlau). Ceir saith awdurdod cynllunio lleol (ACLl) yng ngogledd Cymru; y chwe awdurdod unedol ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Bydd atodlen ddarparu a lleoliad datblygiadau tai newydd yn eu tro yn effeithio ar gynlluniau gwasanaethau ehangach o ran pethau fel ysgolion, cyfleusterau iechyd, cyflogaeth ac isadeiledd. Er hynny, ni fydd yn bosibl rhagfynegi beth fydd yr effaith hwn, nes y bydd data manwl gan y Cyfrifiad am gyfansoddiad yr aelwyd (pwy sy'n byw mewn pa fath o aelwyd) yn cael ei ryddhau ym 2013.

Mae'n annhebygol y bydd amcanestyniadau diwygiedig yr aelwyd gan Lywodraeth Cymru – a fydd yn rhan fawr o'r dystiolaeth sydd ei hangen ar yr awdurdodau cynllunio lleol wrth baratoi eu strategaethau twf CDLl – yn cael eu cynhyrchu cyn 2024. Oherwydd y cam y maent arno yng nghylch cynllunio 15 mlynedd eu CDLlau, mae cyhoeddi data newydd y cyfrifiad ac amcanestyniadau is-genedlaethol Llywodraeth Cymru yn effeithio ar bump ACLl yng ngogledd Cymru. Mae Bwrdeistref Sirol Conwy a Sir Ddinbych yn paratoi ar gyfer cam adneuo eu CDLlau newydd ac mae Gwynedd, Ynys Môn a Pharc Cenedlaethol Eryri yn debygol o weld adolygiad llawn yn cael ei sbarduno gan eu hadroddiadau monitro blynyddol nesaf. Y cyngor presennol gan Gyfarwyddiaeth Gynllunio Llywodraeth Cymru yw parhau â'r amserlenni a nodir yng nghytundebau cyflawni'r CDLl, a symud ymlaen gyda'r ymgynghoriad ar y cam adneuo'r Cynllun. Pan fydd yn cael ei gyhoeddi, bydd data'r cyfrifiad a'r amcanestyniadau diwygiedig yn hysbysu proses fonitro'r CDLl ar draws y rhanbarth. O 2024 bydd Cyd-Bwyllgor Corfforedig newydd gogledd Cymru yn gyfrifol am bennu gofynion tai ac elfennau strategol sy'n ymwneud â datblygu defnydd tir ar draws y rhanbarth.

Amserlen rhyddhau data

Tabl 2: amserlen rhyddhau ar gyfer Cyfrifiad 2021 a data poblogaeth perthnasol

Set ddata	Dyddiad rhyddhau
Crynodebau o bynciau a phroffiliau ardal	Mis Hydref hyd at diwedd 2022
Amcangyfrifon canol-blwyddyn 2021 (drwy ddefnyddio data'r Cyfrifiad)	Tachwedd 2022
Dechrau rhaglen ddadansoddi Cyfrifiad 2021; data amlamrywedd ar gyfer y sail boblogaeth preswylwyr arferol; data ar y boblogaeth breswyl fyrdymor	Gaeaf 2022 i ddechrau 2023
Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn diwygiedig ar gyfer 2012-2020	Gwanwyn/haf 2023
Seiliau poblogaeth amgen; poblogaethau bach; data mudo manwl; data tarddiad-cyrchfan neu ddata 'llif'	O wanwyn 2023
Data cyfrifiad y DU (gan gynnwys canlyniadau ar gyfer yr Alban a Gogledd Iwerddon)	O haf 2023
Amcanestyniadau poblogaeth sail-2021 (ystadegau Llywodraeth Cymru)	Dechrau 2024
Amcanestyniadau aelwydydd sail-2021 (ystadegau Llywodraeth Cymru)	2024

Mae’r data cyntaf o’r Cyfrifiad sy’n cael ei ryddhau yn ymdrin â phrif ffigurau’r boblogaeth yn unig. Bydd mwy o ddata’n cael ei ryddhau fesul cam dros y 18 mis nesaf, a bydd yn cynnwys data manwl ar lefel ardal fach am bobl, aelwydydd a threfniadau byw, gwaith a thai/adnoddau.

Roedd yr amserlen ryddhau yn gywir ym mis Awst 2022 ond gall y dyddiadau newid.

Bydd crynodebau pynciau yn bennaf yn cynnwys data un-newidyn (sy’n golygu y byddant yn canolbwyntio ar un nodwedd). Nid yw dadansoddiad aml-amrywedd llawn yn debygol o fod yn bosibl tan o leiaf diwedd gwanwyn 2023.

Y crynodebau o bynciau arfaethedig o ran trefn cyhoeddi yw:

- demograffeg a mudo
- grŵp ethnig, hunaniaeth genedlaethol, iaith a chrefydd
- cyn-filwyr lluoedd arfog y DU
- tai
- y farchnad lafur a theithio i'r gwaith
- cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd
- addysg
- iechyd, anabledd a gofal di-dâl

Wrth i ddata o Gyfrifiad 2021 ddod ar gael, bydd y Hwb Cydlynu Arloesi Rhanbarthol yn cyhoeddi canlyniadau allweddol ac yn darparu dadansoddiad ar ein gwefan. (https://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/hwb-cydlynu-ymchwil-arloesi-a-gwelliant/)

Ynglŷn â’r Cyfrifiad

Mae'r cyfrifiad yn digwydd bob 10 mlynedd ac mae'n rhoi darlun i ni o'r holl bobl a chartrefi yng Nghymru a Lloegr.

Mae eich atebion i gwestiynau cyfrifiad yn helpu sefydliadau i wneud penderfyniadau am gynllunio ac ariannu gwasanaethau cyhoeddus yn eich ardal, gan gynnwys trafnidiaeth, addysg a gofal iechyd.

Diwrnod y Cyfrifiad oedd Dydd Sul 21 Mawrth 2021.

Mae prif wefan y cyfrifiad yn:
https://cyfrifiad.gov.uk/

Mae bwletin ystadegol sy'n crynhoi'r canlyniadau allweddol i Gymru ar gael.
(https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/bulletins/populationandhouseholdestimateswales/census2021)

Mae'r Prif Ystadegwr Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu blog ynghylch y cyhoeddiad cyntaf a beth mae'n ei olygu i Gymru.
(https://digidoladata.blog.llyw.cymru/2022/06/28/diweddariad-y-prif-ystadegydd-maint-poblogaeth-cymru-yw/)

Mae'r ONS wedi cyhoeddi amrediad o ddata ategol gyda'r canlyniadau cyntaf.
(https://cy.ons.gov.uk/releases/initialfindingsfromthe2021censusinenglandandwales)

Mae'r amserlen rhyddhau data lawn ar gyfer Cyfrifiad 2021 ar gael.
(https://cy.ons.gov.uk/census/censustransformationprogramme/census2021outputs/releaseplans)

Y canlyniadau allweddol i Ynys Môn

- Ar Ddiwrnod y Cyfrifiad, 21 Mawrth 2021, maint y boblogaeth breswyl arferol oedd 68,900.
- Mae'r boblogaeth wedi gostwng o -850 (-1.2%) ers y cyfrifiad diwethaf yn 2011, pan oedd yn 69,750. Gwelodd Cymru gynnydd o 1.4%, a Chymru a Lloegr gynnydd o 6.3%.
- Roedd mwy o bobl nag erioed o'r blaen yn y grwpiau oedran hŷn; cyfran y boblogaeth a oedd yn 65 oed a throsodd oedd 26.4% (i fyny o 22.4% yn 2011), sef cyfanswm o 18,200 o bobl. Y boblogaeth 65+ oed yng Nghymru gyfan = 21.3%; yng Nghymru a Lloegr = 18.6% (i fyny o 18.4% a 16.4% yn y drefn honno).
- Roedd 2,200 o breswylwyr a oedd yn 85 oed a throsodd yn 2021, o gymharu â 2,050 yn 2011 a 1,500 yn 2001. Ar 3.2% o'r boblogaeth roedd hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru o 2.7% a chyfartaledd Cymru a Lloegr o 2.4%.
- Mae'r boblogaeth o oedran gweithio wedi gostwng yn y deng mlynedd diwethaf – roedd 36,200 o bobl 20-64 oed yn 2021 sef 52.5% o'r holl breswylwyr arferol. Mae hyn yn cymharu â 39,150 neu 56.2% yn 2011. Y boblogaeth o oedran 20-64 yng Nghymru gyfan yn 2021 = 56.5%; yng Nghymru a Lloegr = 58.4%.
- Mae'r gymhareb dibyniaeth henaint (nifer y bobl yn y boblogaeth sydd 65+ oed ar gyfer bob 100 o bobl o oedran 20-64) wedi cynyddu'n sylweddol ac mae bellach yn 50.3:100 o gymharu â 39.9:100 yn 2011. Cymhareb Cymru gyfan ar gyfer 2021 yw 37.7:100 ac ar gyfer Cymru a Lloegr mae'n 31.8:100. Gall cymhareb ddibyniaeth uchel roi straen ar yr economi leol ac ar yr adnoddau sydd eu hangen i ddarparu gofal cymdeithasol.
- Roedd nifer y bobl dan 15 oed yn 11,100 neu 16.1% o gyfanswm y boblogaeth (yn 2011 roedd y nifer tua'r un peth ond roedd y gyfran ychydig yn is ar 15.9%). Y boblogaeth o dan 15 oed yng Nghymru gyfan = 16.5%; yng Nghymru a Lloegr = 17.4% (i lawr o 16.9% a 17.6% yn y drefn honno).
- Roedd 30,800 o aelwydydd ag o leiaf un preswylydd arferol ar Ddiwrnod y Cyfrifiad; mae hyn yn gynnydd o 200 (0.7%) ers 2011, pan oedd 30,600 o aelwydydd. Gwelodd Cymru gynnydd o 3.4%, a Chymru a Lloegr gynnydd o 6.1%.
- Mae tua 2.2% o boblogaeth Cymru yn byw yn Ynys Môn. Mae hyn yn ostyngiad bach ers 2011. Fel cyfran o gyfanswm Cymru, mae ffigur poblogaeth yng Nghyfrifiad 2021 yn 0.007% yn uwch na'r ffigur a ddefnyddiwyd yn setliad Grant Cynnal Refeniw 2021/22 ar gyfer awdurdodau lleol. Er bod hyn yn edrych fel gwahaniaeth bach, fe allai gael effaith sylweddol ar incwm o'r setliad.

- Mae ffigurau diweddaraf y boblogaeth a gynhyrchwyd yn swyddogol (amcangyfrifon canol-blwyddyn 2020 o'r boblogaeth, ONS ac amcanestyniadau sail-2018 o Lywodraeth Cymru) wedi amcangyfrif poblogaeth Ynys Môn yn llawer rhy isel.

Tabl 3: cymharu sylfeini gwahanol y boblogaeth ar gyfer Ynys Môn

	Cyfrifiad 2021	Cyfrifiad 2011	Amcan-gyfrif canol-blwydd. 2020	2021/22 setliad y Grant Cynnal Refeniw*	Cyfrifiad 2001
Cyfanswm poblogaeth	68,900	69,750	70,450	69,900	66,850
Fel % o gyfanswm Cymru	2.217%	2.277%	2.222%	2.210%	2.302%
Cyfanswm aelwydydd	30,800	30,600	31,550	31,300	28,350
Gwahaniaeth					
Cyfanswm poblogaeth		-850	-1,550	-1,000	2,050
Fel % o gyfanswm Cymru		-0.060%	-0.005%	0.007%	-0.085%
Cyfanswm aelwydydd		200	-750	-500	2,450

Ffynonellau: Cyfrifiad poblogaeth 2021, 2011 a 2001, SYG; amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2020, SYG; amcangyfrifon aelwydydd canol blwyddyn 2020, LG; amcanestyniadau sail-2018, LG)

* Mae sylfeini'r boblogaeth a ddefnyddir yng nghyfrifiad y Grant Cynnal Refeniw (GCR) wedi'u cymryd o amcanestyniadau poblogaeth sail-2018 a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru, ac yn defnyddio amcanestyniadau ffigurau'r boblogaeth ar gyfer canol-2021.

Y canlyniadau allweddol i Wynedd

- Ar Ddiwrnod y Cyfrifiad, 21 Mawrth 2021, maint y boblogaeth breswyl arferol oedd 117,400.
- Mae'r boblogaeth wedi gostwng o -4,450 (-3.7%) ers y cyfrifiad diwethaf yn 2011, pan oedd yn 121,850. Gwelodd Cymru gynnydd o 1.4%, a Chymru a Lloegr gynnydd o 6.3%. Mae canlyniadau cyfrifiad ar gyfer Gwynedd yn debygol o gael eu heffeithio'n arbennig gan ble y cyfrifwyd myfyrwyr yn ystod y pandemig.
- Roedd mwy o bobl nag erioed o'r blaen yn y grwpiau oedran hŷn; cyfran y boblogaeth a oedd yn 65 oed a throsodd oedd 23.3% (i fyny o 20.6% yn 2011), sef cyfanswm o 27,300 o bobl. Y boblogaeth 65+ oed yng Nghymru gyfan = 21.3%; yng Nghymru a Lloegr = 18.6% (i fyny o 18.4% a 16.4% yn y drefn honno).
- Roedd 3,800 o breswylwyr a oedd yn 85 oed a throsodd yn 2021, o gymharu â 3,450 yn 2011 a 2,750 yn 2001. Ar 3.2% o'r boblogaeth roedd hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru o 2.7% a chyfartaledd Cymru a Lloegr o 2.4%.
- Mae'r boblogaeth o oedran gweithio wedi gostwng yn y deng mlynedd diwethaf – roedd 64,900 o bobl 20-64 oed yn 2021 sef 55.3% o'r holl breswylwyr arferol. Mae hyn yn cymharu â 68,800 neu 56.4% yn 2011. Y boblogaeth o oedran 20-64 yng Nghymru gyfan yn 2021 = 56.5%; yng Nghymru a Lloegr = 58.4%.
- Mae'r gymhareb dibyniaeth henaint (nifer y bobl yn y boblogaeth sydd 65+ oed ar gyfer bob 100 o bobl o oedran 20-64) wedi cynyddu'n sylweddol ac mae bellach yn 42.1:100 o gymharu â 36.6:100 yn 2011. Cymhareb Cymru gyfan ar gyfer 2021 yw 37.7:100 ac ar gyfer Cymru a Lloegr mae'n 31.8:100. Gall cymhareb ddibyniaeth uchel roi straen ar yr economi leol ac ar yr adnoddau sydd eu hangen i ddarparu gofal cymdeithasol.
- Roedd nifer y bobl dan 15 oed yn 18,000 neu 15.3% o gyfanswm y boblogaeth (i lawr o 19,600 neu 16.1% yn 2011). Y boblogaeth o dan 15 oed yng Nghymru gyfan = 16.5%; yng Nghymru a Lloegr = 17.4% (i lawr o 16.9% a 17.6% yn y drefn honno).
- Roedd 51,100 o aelwydydd ag o leiaf un preswylydd arferol ar Ddiwrnod y Cyfrifiad; mae hyn yn ostyngiad o -1,350 (-2.6%) ers 2011, pan oedd 52,450 o aelwydydd. Gwelodd Cymru gynnydd o 3.4%, a Chymru a Lloegr gynnydd o 6.1%.
- Mae tua 3.8% o boblogaeth Cymru yn byw yng Ngwynedd. Mae hyn yn ostyngiad bach ers 2011. Fel cyfran o gyfanswm Cymru, mae ffigur poblogaeth yng Nghyfrifiad 2021 yn -0.173% yn is na'r ffigur a ddefnyddiwyd yn setliad Grant

Cynnal Refeniw 2021/22 ar gyfer awdurdodau lleol. Er bod hyn yn edrych fel gwahaniaeth bach, fe allai gael effaith sylweddol ar incwm o'r setliad.

- Mae ffigurau diweddaraf y boblogaeth a gynhyrchwyd yn swyddogol (amcangyfrifon canol-blwyddyn 2020 o'r boblogaeth, ONS ac amcanestyniadau sail-2018 o Lywodraeth Cymru) wedi amcangyfrif poblogaeth Gwynedd yn llawer rhy isel.

Tabl 4: cymharu sylfeini gwahanol y boblogaeth ar gyfer Gwynedd

	Cyfrifiad 2021	Cyfrifiad 2011	Amcan-gyfrif canol-blwydd. 2020	2021/22 setliad y Grant Cynnal Refeniw*	Cyfrifiad 2001
Cyfanswm poblogaeth	117,400	121,850	125,150	124,950	116,850
Fel % o gyfanswm Cymru	3.778%	3.978%	3.949%	3.951%	4.025%
Cyfanswm aelwydydd	51,100	52,450	55,100	55,000	49,250
Gwahaniaeth					
Cyfanswm poblogaeth		-4,450	-7,750	-7,550	550
Fel % o gyfanswm Cymru		-0.200%	-0.171%	-0.173%	-0.247%
Cyfanswm aelwydydd		-1,350	-4,000	-3,900	1,850

Ffynonellau: Cyfrifiad poblogaeth 2021, 2011 a 2001, SYG; amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2020, SYG; amcangyfrifon aelwydydd canol blwyddyn 2020, LG; amcanestyniadau sail-2018, LG)

* Mae sylfeini'r boblogaeth a ddefnyddir yng nghyfrifiad y Grant Cynnal Refeniw (GCR) wedi'u cymryd o amcanestyniadau poblogaeth sail-2018 a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru, ac yn defnyddio amcanestyniadau ffigurau'r boblogaeth ar gyfer canol-2021.

Y canlyniadau allweddol i Fwrdeistref Sirol Conwy

- Ar Ddiwrnod y Cyfrifiad, 21 Mawrth 2021, maint y boblogaeth breswyl arferol ym Mwrdeistref Sirol Conwy oedd 114,800.
- Mae'r boblogaeth wedi gostwng o -450 (-0.4%) ers y cyfrifiad diwethaf yn 2011, pan oedd yn 115,250. Gwelodd Cymru gynnydd o 1.4%, a Chymru a Lloegr gynnydd o 6.3%.
- Roedd mwy o bobl nag erioed o'r blaen yn y grwpiau oedran hŷn; cyfran y boblogaeth a oedd yn 65 oed a throsodd oedd 27.4% (i fyny o 24.4% yn 2011). Hwn oedd yr ail uchaf yng Nghymru (ar ôl Powys ar 27.8%) ac roedd yn gyfanswm o 31,400 o bobl. Y boblogaeth 65+ oed yng Nghymru gyfan = 21.3%; yng Nghymru a Lloegr = 18.6% (i fyny o 18.4% a 16.4% yn y drefn honno).
- Roedd 4,500 o breswylwyr ym Mwrdeistref Sirol Conwy a oedd yn 85 oed a throsodd yn 2021, o gymharu â 4,300 yn 2011 a 3,650 yn 2001. Ar 3.9% o'r boblogaeth dyma'r gyfran uchaf yng Nghymru.
- Mae'r boblogaeth o oedran gweithio wedi gostwng yn y deng mlynedd diwethaf – roedd 60,800 o bobl 20-64 oed yn 2021 sef 53.0% o'r holl breswylwyr arferol. Mae hyn yn cymharu â 62,700 neu 54.4% yn 2011. Y boblogaeth o oedran 20-64 yng Nghymru gyfan yn 2021 = 56.5%; yng Nghymru a Lloegr = 58.4%.
- Mae'r gymhareb dibyniaeth henaint (nifer y bobl yn y boblogaeth sydd 65+ oed ar gyfer bob 100 o bobl o oedran 20-64) wedi cynyddu'n sylweddol ac mae bellach yn 51.6:100 o gymharu â 44.9:100 yn 2011. Cymhareb Cymru gyfan ar gyfer 2021 yw 37.7:100 ac ar gyfer Cymru a Lloegr mae'n 31.8:100. Gall cymhareb ddibyniaeth uchel roi straen ar yr economi leol ac ar yr adnoddau sydd eu hangen i ddarparu gofal cymdeithasol.
- Roedd nifer y bobl dan 15 oed yn 17,200 neu 15.0% o gyfanswm y boblogaeth (i lawr o 17,750 neu 15.4% yn 2011). Y boblogaeth o dan 15 oed yng Nghymru gyfan = 16.5%; yng Nghymru a Lloegr = 17.4% (i lawr o 16.9% a 17.6% yn y drefn honno).
- Roedd 52,200 o aelwydydd ag o leiaf un preswylydd arferol yng Nghymru ar Ddiwrnod y Cyfrifiad; mae hyn yn gynnydd o 1,000 (2.0%) ers 2011, pan oedd 51,200 o aelwydydd. Gwelodd Cymru gynnydd o 3.4%, a Chymru a Lloegr gynnydd o 6.1%.
- Mae tua 3.7% o boblogaeth Cymru yn byw ym Mwrdeistref Sirol Conwy. Mae hyn yn ostyngiad bach ers 2011. Fel cyfran o gyfanswm Cymru, mae ffigur poblogaeth yng Nghyfrifiad 2021 yn -0.037% yn is na'r ffigur a ddefnyddiwyd yn

setliad Grant Cynnal Refeniw 2021/22 ar gyfer awdurdodau lleol. Er bod hyn yn edrych fel gwahaniaeth bach, fe allai gael effaith sylweddol ar incwm o'r setliad.

- Mae ffigurau diweddaraf y boblogaeth a gynhyrchwyd yn swyddogol (amcangyfrifon canol-blwyddyn 2020 o'r boblogaeth, ONS ac amcanestyniadau sail-2018 o Lywodraeth Cymru) wedi amcangyfrif poblogaeth Bwrdeistref Sirol Conwy yn llawer rhy isel.

Tabl 5: cymharu sylfeini gwahanol y boblogaeth ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy

	Cyfrifiad 2021	Cyfrifiad 2011	Amcan-gyfrif canol-blwydd. 2020	2021/22 setliad y Grant Cynnal Refeniw*	Cyfrifiad 2001
Cyfanswm poblogaeth	114,800	115,250	118,200	118,000	109,600
Fel % o gyfanswm Cymru	3.694%	3.761%	3.729%	3.732%	3.775%
Cyfanswm aelwydydd	52,200	51,200	53,350	53,350	48,050
Gwahaniaeth					
Cyfanswm poblogaeth		-450	-3,400	-3,200	5,200
Fel % o gyfanswm Cymru		-0.067%	-0.034%	-0.037%	-0.081%
Cyfanswm aelwydydd		1,000	-1,150	-1,150	4,150

Ffynonellau: Cyfrifiad poblogaeth 2021, 2011 a 2001, SYG; amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2020, SYG; amcangyfrifon aelwydydd canol blwyddyn 2020, LG; amcanestyniadau sail-2018, LG)

* Mae sylfeini'r boblogaeth a ddefnyddir yng nghyfrifiad y Grant Cynnal Refeniw (GCR) wedi'u cymryd o amcanestyniadau poblogaeth sail-2018 a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru, ac yn defnyddio amcanestyniadau ffigurau'r boblogaeth ar gyfer canol-2021.

Y canlyniadau allweddol i Sir Ddinbych

- Ar Ddiwrnod y Cyfrifiad, 21 Mawrth 2021, maint y boblogaeth breswyl arferol oedd 95,800.
- Mae'r boblogaeth wedi cynyddu gan 2,050 (2.2%) ers y cyfrifiad diwethaf yn 2011, pan oedd yn 93,750. Gwelodd Cymru gynnydd o 1.4%, a Chymru a Lloegr gynnydd o 6.3%.
- Roedd mwy o bobl nag erioed o'r blaen yn y grwpiau oedran hŷn; cyfran y boblogaeth a oedd yn 65 oed a throsodd oedd 24.8% (i fyny o 21.0% yn 2011), sef cyfanswm o 23,800 o bobl. Y boblogaeth 65+ oed yng Nghymru gyfan = 21.3%; yng Nghymru a Lloegr = 18.6% (i fyny o 18.4% a 16.4% yn y drefn honno).
- Roedd 3,000 o breswylwyr a oedd yn 85 oed a throsodd yn 2021, o gymharu â 2,600 yn 2011 a 2,650 yn 2001. Ar 3.1% o'r boblogaeth roedd hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru o 2.7% a chyfartaledd Cymru a Lloegr o 2.4%.
- Mae'r boblogaeth o oedran gweithio wedi gostwng yn y deng mlynedd diwethaf – roedd 51,200 o bobl 20-64 oed yn 2021 sef 53.4% o'r holl breswylwyr arferol. Mae hyn yn cymharu â 52,300 neu 55.8% yn 2011. Y boblogaeth o oedran 20-64 yng Nghymru gyfan yn 2021 = 56.5%; yng Nghymru a Lloegr = 58.4%.
- Mae'r gymhareb dibyniaeth henaint (nifer y bobl yn y boblogaeth sydd 65+ oed ar gyfer bob 100 o bobl o oedran 20-64) wedi cynyddu'n sylweddol ac mae bellach yn 46.5:100 o gymharu â 37.7:100 yn 2011. Cymhareb Cymru gyfan ar gyfer 2021 yw 37.7:100 ac ar gyfer Cymru a Lloegr mae'n 31.8:100. Gall cymhareb ddibyniaeth uchel roi straen ar yr economi leol ac ar yr adnoddau sydd eu hangen i ddarparu gofal cymdeithasol.
- Roedd nifer y bobl dan 15 oed yn 15,800 neu 16.5% o gyfanswm y boblogaeth (i lawr o 16.8% yn 2011). Y boblogaeth o dan 15 oed yng Nghymru gyfan = 16.5%; yng Nghymru a Lloegr = 17.4% (i lawr o 16.9% a 17.6% yn y drefn honno).
- Roedd 42,400 o aelwydydd ag o leiaf un preswylydd arferol ar Ddiwrnod y Cyfrifiad; mae hyn yn gynnydd o 1,850 (4.6%) ers 2011, pan oedd 40,550 o aelwydydd. Gwelodd Cymru gynnydd o 3.4%, a Chymru a Lloegr gynnydd o 6.1%.
- Mae tua 3.1% o boblogaeth Cymru yn byw yn Sir Ddinbych. Mae hyn yn gynnydd bach ers 2011. Fel cyfran o gyfanswm Cymru, mae ffigur poblogaeth yng Nghyfrifiad 2021 yn 0.052% yn uwch na'r ffigur a ddefnyddiwyd yn setliad Grant

Cynnal Refeniw 2021/22 ar gyfer awdurdodau lleol. Er bod hyn yn edrych fel gwahaniaeth bach, fe allai gael effaith sylweddol ar incwm o'r setliad.

- Mae ffigurau diweddaraf y boblogaeth a gynhyrchwyd yn swyddogol (amcangyfrifon canol-blwyddyn 2020 o'r boblogaeth, ONS ac amcanestyniadau sail-2018 o Lywodraeth Cymru) wedi amcangyfrif poblogaeth Sir Ddinbych yn llawer rhy isel.

Tabl 6: cymharu sylfeini gwahanol y boblogaeth ar gyfer Sir Ddinbych

	Cyfrifiad 2021	Cyfrifiad 2011	Amcan-gyfrif canol-blwydd. 2020	2021/22 setliad y Grant Cynnal Refeniw*	Cyfrifiad 2001
Cyfanswm poblogaeth	95,800	93,750	96,650	95,850	93,050
Fel % o gyfanswm Cymru	3.083%	3.060%	3.050%	3.031%	3.206%
Cyfanswm aelwydydd	42,400	40,550	42,200	42,000	39,900
Gwahaniaeth					
Cyfanswm poblogaeth		2,050	-850	-50	2,750
Fel % o gyfanswm Cymru		0.023%	0.033%	0.052%	-0.123%
Cyfanswm aelwydydd		1,850	200	400	2,500

Ffynonellau: Cyfrifiad poblogaeth 2021, 2011 a 2001, SYG; amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2020, SYG; amcangyfrifon aelwydydd canol blwyddyn 2020, LG; amcanestyniadau sail-2018, LG)

* Mae sylfeini'r boblogaeth a ddefnyddir yng nghyfrifiad y Grant Cynnal Refeniw (GCR) wedi'u cymryd o amcanestyniadau poblogaeth sail-2018 a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru, ac yn defnyddio amcanestyniadau ffigurau'r boblogaeth ar gyfer canol-2021.

Y canlyniadau allweddol i Sir y Fflint

- Ar Ddiwrnod y Cyfrifiad, 21 Mawrth 2021, maint y boblogaeth breswyl arferol oedd 155,000.
- Mae'r boblogaeth wedi cynyddu gan 2,500 (1.6%) ers y cyfrifiad diwethaf yn 2011, pan oedd yn 152,500. Gwelodd Cymru gynnydd o 1.4%, a Chymru a Lloegr gynnydd o 6.3%.
- Roedd mwy o bobl nag erioed o'r blaen yn y grwpiau oedran hŷn; cyfran y boblogaeth a oedd yn 65 oed a throsodd oedd 21.4% (i fyny o 17.6% yn 2011), sef cyfanswm o 33,200 o bobl. Y boblogaeth 65+ oed yng Nghymru gyfan = 21.3%; yng Nghymru a Lloegr = 18.6% (i fyny o 18.4% a 16.4% yn y drefn honno).
- Roedd 3,800 o breswylwyr a oedd yn 85 oed a throsodd yn 2021, o gymharu â 3,150 yn 2011 a 2,550 yn 2001. Ar 2.5% o'r boblogaeth roedd hyn yn is na chyfartaledd Cymru o 2.7% ac yn uwch na chyfartaledd Cymru a Lloegr o 2.4%.
- Mae'r boblogaeth o oedran gweithio wedi gostwng yn y deng mlynedd diwethaf – roedd 87,900 o bobl 20-64 oed yn 2021 sef 56.7% o'r holl breswylwyr arferol. Mae hyn yn cymharu â 89,450 neu 58.7% yn 2011. Y boblogaeth o oedran 20-64 yng Nghymru gyfan yn 2021 = 56.5%; yng Nghymru a Lloegr = 58.4%.
- Mae'r gymhareb dibyniaeth henaint (nifer y bobl yn y boblogaeth sydd 65+ oed ar gyfer bob 100 o bobl o oedran 20-64) wedi cynyddu'n sylweddol ac mae bellach yn 37.8:100 o gymharu â 30.0:100 yn 2011. Cymhareb Cymru gyfan ar gyfer 2021 yw 37.7:100 ac ar gyfer Cymru a Lloegr mae'n 31.8:100. Gall cymhareb ddibyniaeth uchel roi straen ar yr economi leol ac ar yr adnoddau sydd eu hangen i ddarparu gofal cymdeithasol.
- Roedd nifer y bobl dan 15 oed yn 25,600 neu 16.5% o gyfanswm y boblogaeth (i lawr o 26,700 neu 17.5% yn 2011). Y boblogaeth o dan 15 oed yng Nghymru gyfan = 16.5%; yng Nghymru a Lloegr = 17.4% (i lawr o 16.9% a 17.6% yn y drefn honno).
- Roedd 66,900 o aelwydydd ag o leiaf un preswylydd arferol ar Ddiwrnod y Cyfrifiad; mae hyn yn gynnydd o 3,100 (4.9%) ers 2011, pan oedd 63,800 o aelwydydd. Gwelodd Cymru gynnydd o 3.4%, a Chymru a Lloegr gynnydd o 6.1%.
- Mae tua 5.0% o boblogaeth Cymru yn byw ym Sir y Fflint. Mae hyn yn gynnydd bach ers 2011. Fel cyfran o gyfanswm Cymru, mae ffigur poblogaeth yng Nghyfrifiad 2021 yn 0.027% yn uwch na'r ffigur a ddefnyddiwyd yn setliad Grant Cynnal Refeniw 2021/22 ar gyfer awdurdodau lleol. Er bod hyn yn edrych fel gwahaniaeth bach, fe allai gael effaith sylweddol ar incwm o'r setliad.

- Mae ffigurau diweddaraf y boblogaeth a gynhyrchwyd yn swyddogol (amcangyfrifon canol-blwyddyn 2020 o'r boblogaeth, ONS ac amcanestyniadau sail-2018 o Lywodraeth Cymru) wedi amcangyfrif poblogaeth Sir y Fflint yn llawer rhy isel.

Tabl 7: cymharu sylfeini gwahanol y boblogaeth ar gyfer Sir y Fflint

	Cyfrifiad 2021	Cyfrifiad 2011	Amcan-gyfrif canol-blwydd. 2020	2021/22 setliad y Grant Cynnal Refeniw*	Cyfrifiad 2001
Cyfanswm poblogaeth	155,000	152,500	156,850	156,850	148,600
Fel % o gyfanswm Cymru	4.988%	4.978%	4.949%	4.961%	5.118%
Cyfanswm aelwydydd	66,900	63,800	66,950	67,150	60,550
Gwahaniaeth					
Cyfanswm poblogaeth		2,500	-1,850	-1,850	6,400
Fel % o gyfanswm Cymru		0.010%	0.039%	0.027%	-0.131%
Cyfanswm aelwydydd		3,100	-50	-250	6,350

Ffynonellau: Cyfrifiad poblogaeth 2021, 2011 a 2001, SYG; amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2020, SYG; amcangyfrifon aelwydydd canol blwyddyn 2020, LG; amcanestyniadau sail-2018, LG)

* Mae sylfeini'r boblogaeth a ddefnyddir yng nghyfrifiad y Grant Cynnal Refeniw (GCR) wedi'u cymryd o amcanestyniadau poblogaeth sail-2018 a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru, ac yn defnyddio amcanestyniadau ffigurau'r boblogaeth ar gyfer canol-2021.

Y canlyniadau allweddol i Wrecsam

- Ar Ddiwrnod y Cyfrifiad, 21 Mawrth 2021, maint y boblogaeth breswyl arferol oedd 135,100.
- Mae'r boblogaeth wedi cynyddu gan 250 (0.2%) ers y cyfrifiad diwethaf yn 2011, pan oedd yn 134,850. Gwelodd Cymru gynnydd o 1.4%, a Chymru a Lloegr gynnydd o 6.3%.
- Roedd mwy o bobl nag erioed o'r blaen yn y grwpiau oedran hŷn; cyfran y boblogaeth a oedd yn 65 oed a throsodd oedd 20.2% (i fyny o 16.9% yn 2011), sef cyfanswm o 27,300 o bobl. Y boblogaeth 65+ oed yng Nghymru gyfan = 21.3%; yng Nghymru a Lloegr = 18.6% (i fyny o 18.4% a 16.4% yn y drefn honno).
- Roedd 3,300 o breswylwyr a oedd yn 85 oed a throsodd yn 2021, o gymharu â 2,900 yn 2011 a 2,500 yn 2001. Ar 2.4% o'r boblogaeth roedd hyn yn is na chyfartaledd Cymru o 2.7% ac yr un fath â chyfartaledd Cymru a Lloegr.
- Mae'r boblogaeth o oedran gweithio wedi gostwng yn y deng mlynedd diwethaf – roedd 77,100 o bobl 20-64 oed yn 2021 sef 57.1% o'r holl breswylwyr arferol. Mae hyn yn cymharu â 79,750 neu 59.2% yn 2011. Y boblogaeth o oedran 20-64 yng Nghymru gyfan yn 2021 = 56.5%; yng Nghymru a Lloegr = 58.4%.
- Mae'r gymhareb dibyniaeth henaint (nifer y bobl yn y boblogaeth sydd 65+ oed ar gyfer bob 100 o bobl o oedran 20-64) wedi cynyddu'n sylweddol ac mae bellach yn 35.4:100 o gymharu â 28.6:100 yn 2011. Cymhareb Cymru gyfan ar gyfer 2021 yw 37.7:100 ac ar gyfer Cymru a Lloegr mae'n 31.8:100. Gall cymhareb ddibyniaeth uchel roi straen ar yr economi leol ac ar yr adnoddau sydd eu hangen i ddarparu gofal cymdeithasol.
- Roedd nifer y bobl dan 15 oed yn 23,300 neu 17.2% o gyfanswm y boblogaeth (i lawr o 24,200 neu 17.9% yn 2011). Y boblogaeth o dan 15 oed yng Nghymru gyfan = 16.5%; yng Nghymru a Lloegr = 17.4% (i lawr o 16.9% a 17.6% yn y drefn honno). Mae gan Wrecsam strwythur oedran poblogaeth ieuengaf o'r chwe ardal awdurdod unedol yng Ngogledd Cymru.
- Roedd 57,900 o aelwydydd ag o leiaf un preswylydd arferol ar Ddiwrnod y Cyfrifiad; mae hyn yn gynnydd o 850 (1.5%) ers 2011, pan oedd 57,050 o aelwydydd. Gwelodd Cymru gynnydd o 3.4%, a Chymru a Lloegr gynnydd o 6.1%.
- Mae tua 4.3% o boblogaeth Cymru yn byw yn Wrecsam. Mae hyn yn ostyngiad bach ers 2011. Fel cyfran o gyfanswm Cymru, mae ffigur poblogaeth yng Nghyfrifiad 2021 yn 0.058% yn uwch na'r ffigur a ddefnyddiwyd yn setliad Grant

Cynnal Refeniw 2021/22 ar gyfer awdurdodau lleol. Er bod hyn yn edrych fel gwahaniaeth bach, fe allai gael effaith sylweddol ar incwm o'r setliad.

- Mae ffigurau diweddaraf y boblogaeth a gynhyrchwyd yn swyddogol (amcangyfrifon canol-blwyddyn 2020 o'r boblogaeth, ONS ac amcanestyniadau sail-2018 o Lywodraeth Cymru) wedi amcangyfrif poblogaeth Wrecsam yn llawer rhy isel.

Tabl 8: cymharu sylfeini gwahanol y boblogaeth ar gyfer Wrecsam

	Cyfrifiad 2021	Cyfrifiad 2011	Amcan-gyfrif canol-blwydd. 2020	2021/22 setliad y Grant Cynnal Refeniw*	Cyfrifiad 2001
Cyfanswm poblogaeth	135,100	134,850	136,050	135,650	128,500
Fel % o gyfanswm Cymru	4.348%	4.402%	4.293%	4.289%	4.425%
Cyfanswm aelwydydd	57,900	57,050	59,050	58,950	53,250
Gwahaniaeth					
Cyfanswm poblogaeth		250	-950	-550	6,600
Fel % o gyfanswm Cymru		-0.054%	0.055%	0.058%	-0.078%
Cyfanswm aelwydydd		850	-1,150	-1,050	4,650

Ffynonellau: Cyfrifiad poblogaeth 2021, 2011 a 2001, SYG; amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2020, SYG; amcangyfrifon aelwydydd canol blwyddyn 2020, LG; amcanestyniadau sail-2018, LG)

* Mae sylfeini'r boblogaeth a ddefnyddir yng nghyfrifiad y Grant Cynnal Refeniw (GCR) wedi'u cymryd o amcanestyniadau poblogaeth sail-2018 a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru, ac yn defnyddio amcanestyniadau ffigurau'r boblogaeth ar gyfer canol-2021.